Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

18 Rhagfyr 2019

Annwyl Lesley

**Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i dlodi tanwydd**

Diolch am gytuno i ymddangos gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn y cyfarfod a gynhelir ddydd Iau 13 Chwefror 2020, a hynny er mwyn rhoi tystiolaeth mewn perthynas â'n hymchwiliad i dlodi tanwydd.

Yn ogystal â rhoi trosolwg o ymdrechion cyfredol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion tanwydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai eich tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys ymatebion i'r materion a ganlyn.

- Egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur tlodi tanwydd, gan nodi a yw'r fethodoleg wedi newid ers i'r amcangyfrifon ynghylch tlodi tanwydd gael eu cynhyrchu yn 2008. Os yw'r fethodoleg wedi newid, egluro beth yw natur y newid hwnnw;
- Amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro llwyddiant y rhaglen Cartrefi Clyd;
- Amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â bregusrwydd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yng nghyd-destun tlodi tanwydd;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

- Esbonio sut y mae cynlluniau Arbed (tri ohonynt) wedi bod yn wahanol i'w gilydd;
- Darparu data ar wariant hanesyddol ar gyfer rhaglenni tlodi tanwydd y Llywodraeth; ac
- Egluro pam y bu tanwariant ar gyfer cynllun Arbed 3 hyd yn hyn, fel yr amlygwyd mewn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Edrychaf ymlaen at gael eich tystiolaeth ysgrifenedig maes o law.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.